

Presennol:	Huw Jones Carol Bell John Davies Aled Eirug Hugh Hesketh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (eitem 1-12) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Dafydd Rhys Elin Morris Phil Williams Bethan C. Williams Huw Marshall Steve Thomas Catrin Hughes Roberts	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Pennaeth Datblygu Digidol) (eitem 11) (Ymgynghorydd Polisi a Strategaeth) (eitem 8) (Cyfarwyddwr Partneriaethau) (eitem 8)
Ymddiheuriadau:	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)

- 1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.
- 2. Cofnodion cyfarfod 390** (a gynhaliwyd ar 10.09.15)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 390. Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.
- 3. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 390**

Ni chodwyd unrhyw faterion o'r cofnodion.
- 4. Adroddiad y Cadeirydd (Rhan 1)**
 - 4.1** Gofynnodd y Cadeirydd i JD gyflwyno diweddariad yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd neithiwr.
 - 4.2** Esboniodd JD fod y Pwyllgor Craffu wedi cyfarfod i dderbyn adroddiad cynnydd gan swyddogion parthed y cynllun Cydleoli ac yn benodol i dderbyn diweddariad parthed cyflawni amodau blaenorol yr Awdurdod a'r Pwyllgor o ran egwyddorion ar gyfer trefniant cytundebol gyda'r BBC. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am y cynnydd oedd wedi bod o ran y trefniant arfaethedig.

- 4.3 Nodwyd fod y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r argymhellion ac felly i awdurdodi swyddogion i barhau i drafod a negydu gyda'r BBC er mwyn ceisio cyflawni argymhellion ac amodau blaenorol yr Awdurdod a chyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor neu'r Awdurdod maes o law ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth derfynol os yn briodol.
- 4.4 **[Crynodeb:** Cyflwynwyd argymhellion y Pwyllgor a'r amodau a awgrymwyd i'r Awdurdod.]
- 4.5 Nododd EM fod llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr y BBC yng Nghymru yn nodi eu bod yn ystyried opsiynau technegol er mwyn dygymod gydag amserlen ddiwygiedig y cynllun cydleoli, gan gynnwys ystyried adnewyddu'r offer technegol yn Llandaf dros dro yn y cyfamser, gan gyfuno gweithgareddau technegol S4C yn Llandaf ar yr un pryd. Esboniwyd fod swyddogion yn ystyried yr opsiwn ac yn bwriadu cwblhau gwaith dichonolrwydd ar y cynnig, ond yr oedd yn ymddangos y gallai hyn fod yn opsiwn ymarferol, a allai oresgyn llawer o'r materion sy'n deillio o'r gwahaniaeth amseru rhwng y ddau brosiect a lleihau risg o unrhyw oedi pellach i'r prosiect. Byddai hefyd yn galluogi S4C i ymdrin â TUPE a materion hyfforddi cyn y symud i'r ganolfan newydd, a chyflawni arbedion ar y cyd ynghynt.
- 4.6 Bydd angen dealltwriaeth am y broses er mwyn i ni gyrraedd sefyllfa i fedru cadarnhau a yw'r amodau uchod wedi eu bodloni ac i gael cymeradwyaeth i arwyddo'r dogfennau cytundebol erbyn canol mis Hydref.
- 4.7 Cafwyd trafodaeth am yr amodau a phenderfynodd yr Awdurdod i gymeradwyo'r argymhellion, gan nodi yn ogystal eu bod yn awyddus i archwilio'r posibilrwydd o gydleoli dros dro yn Llandaf, ond yn dymuno sicrhau na fyddai hynny'n lleihau'r arbedion disgwyliedig o gydleoli.
5. **Adroddiad y Cadeirydd (Parhad)**
- Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.
- 5.1 **Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol**
- Roedd y Cadeirydd ac IHJ wedi cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddar i drafod materion yn ymwneud ag S4C, gan gynnwys yr Adolygiad Gwariant, adolygu siartr y BBC ac adolygiad posibl o S4C. Roedd yn amlwg fod disgwyl i S4C, fel pob corff cyhoeddus sy'n derbyn nawdd oddi wrth DCMS ddarganfod arbedion effeithlonrwydd ac i wneud arbedion effeithlonrwydd tebyg i'r BBC o ran ariannu a ddaw o Ffi'r Drwydded.
- 5.2 Cyfeiriwyd at gwestiwn adolygiad o strategaeth ac ariannu S4C a nododd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn ymwybodol o'r cwestiwn a bod ystyriaeth yn cael ei roi i opsiynau ar gyfer adolygiad. Mae'n debyg fod y mater hefyd wedi ei drafod yng nghyfarfod yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chynrychiolwyr y sector gynhyrchu.
- 5.3 Trafododd yr Awdurdod y manteision ac anfanteision i S4C wrth ofyn am adolygiad gan nodi y gallai ddangos fod yna bwrpas penodol i ddarpariaethau'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn ymwneud ag ariannu digonol, neu fe allai arwain at argymhellion neu ganfyddiadau allai fod yn niweidiol i S4C.
- 5.4 Nodwyd ei fod yn bwysig ceisio sicrhau nad yw ariannu S4C yn cael ei drin yn

unig fel rhan o broses sy'n ymwneud â chorff arall a bod angen rhoi ystyriaeth annibynnol i gwestiynau'n ymwneud ag ariannu S4C.

- 5.5 Cyfeiriwyd yn y cyfarfod at ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn Nhŷ'r Cyffredin parthed "read across" posibl o ariannu'r BBC i ariannu S4C a holwyd a fyddai'r DCMS yn rhan o'r drafodaeth rhwng y BBC ac S4C. Esboniwyd y byddai gan DCMS ddiddordeb yn y trafodaethau. O ran dehongli ystyr y "read across" nodwyd y dylid trafod gyda'r Weithrediaeth yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth.
- 5.6 Nododd y Cadeirydd ei fod hefyd wedi cynnal sgwrs ffôn gyda Rona Fairhead er mwyn trafod y camau nesaf o ran trafod ariannu S4C o Ffi'r Drwydded o 2017. Roedd RF wedi cynnig sefydlu tîm o swyddogion o'r Ymddiriedolaeth a'r Weithrediaeth i ystyried a thrafod dehongliad o'r "read across".
- 5.7 Esboniwyd fod swyddogion S4C hefyd yn y broses o greu taenlen yn dangos effaith posibl y "read across" .
- 5.8 Nododd IHJ fod cyfarfod cynrychiolwyr y sector gynhyrchu hefyd wedi bod yn adeiladol.

6. **Ymgynghoriadau seneddol parthed dyfodol y BBC**

- 6.1 Nododd y Cadeirydd fod angen ymateb i sawl ymgynghoriad seneddol parthed dyfodol y BBC ar hyn o bryd. Y bwriad oedd defnyddio'r ymatebion hyn i gyflwyno tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cwestiynau dan sylw yn hytrach nac achos ariannu S4C yn ei gyfanrwydd gan y bydd hyn yn deillio o ddogfen Dyfodol S4C.
- 6.2 Diolchwyd am y sylwadau oedd eisoes wedi eu cyflwyno ar e-bost gan yr Aelodau ac esboniwyd y byddai'r ymatebion i'r Pwyllgorau eraill yn seiliedig ar yr ymatebion sydd wedi eu cylchredeg eisoes i'r Aelodau.

7. **Adolygiad Sir David Clementi o Lywodraethiant y BBC**

Nodwyd fod S4C yn gobeithio cyfarfod gyda David Clementi a chyflwyno tystiolaeth parthed trefniadau atebolrwydd ac ariannu S4C a'r Cytundeb Gweithredu.

8. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad gan gyfeirio at yr isod.

Dogfen Dyfodol S4C a Darlledu Cymraeg

[Crynodeb: Cyflwynodd ddrafft diweddaraf Dyfodol S4C a Darlledu Cymraeg ac esboniodd yr amserlen a'r bwriad i gyhoeddi'r ddogfen mewn digwyddiad arbennig. Pwrpas y ddogfen oedd sbarduno trafodaeth gyhoeddus am ddyfodol gwasanaeth ac ariannu S4C, ac nid cyflwyno strategaeth newydd i S4C, felly nid oedd gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo'r ddogfen.]

Penderfynwyd parhau gyda'r broses o gwblhau'r ddogfen ac anelu i'w chyhoeddi mewn digwyddiad yng Nghaerdydd o fewn yr wythnosau nesaf.

9. **Adroddiad ar gyfarfod gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones**

[**Crynodeb:** Rhoddodd IHJ adborth o'r cyfarfod rhyngddo ef, y Cadeirydd a Phrif Weinidog Cymru.]

10. **Prif Darged ar gyfer y gwasanaeth**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am nifer o fesuriadau posibl ar gyfer prif darged gwasanaeth S4C a'r oblygiadau o'u dewis. Cynigwyd un posibl i'w mabwysiadu.]

Cyflwynwyd argymhelliad ar gyfer Prif Darged y Gwasanaeth ac awgrymwyd y dylid defnyddio'r targed newydd i anelu at gynyddu cyrhaeddiad y gwasanaeth.

Cymeradwywyd yr argymhelliad i fabwysiadu Cyrhaeddiad Holl Wylwyr yng Nghymru fel prif darged mewnol y gwasanaeth, gan gadw golwg yn ogystal ar ar-lein ac adrodd yn yr adroddiad chwarterol ar sail cyfartaledd symudol 3 mis a chymhariaeth (index) gyda pherfformiad sianelau PSB eraill yng Nghymru.

11. **Diweddariad ar weithredu'r Strategaeth Ddigidol**

Croesawyd HM i'r cyfarfod.

Cyflwynodd HM ei adroddiadau oedd yn crynhoi cynnwys y Strategaeth Ddigidol, blaenoriaethau a chynllun gwaith y strategaeth ynghyd â fframwaith ar gyfer asesu perfformiad y strategaeth.

[**Crynodeb:** Gan gyfeirio at berfformiad, nodwyd y cynnydd mewn rhai elfennau digidol o'r gwasanaeth a'r flaenoriaeth a roddir i ddatblygu presenoldeb S4C ar Twitter, Facebook ac Ap S4C. Cynhwysir mesuryddion i asesu perfformiad y strategaeth.]

Cyfeiriwyd at wybodaeth EPG S4C ar lwyfannau masnachol megis Radio Times ar-lein, gan nodi ei fod yn anodd darganfod gwybodaeth am amserlen S4C.

Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Radio Times i drafod cynnwys gwybodaeth am amserlen S4C.

12. **Paratoi ar gyfer Gwerthiant Ystâd S4C**

Nodwyd fod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag arbenigwyr caniatâd cynllunio er mwyn ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwerthu'r ystâd. Rhoddir diweddariad pellach pan fydd cyngor cynllunio terfynol wedi ei dderbyn.

13. **Amcanion Gweithredol ar gyfer 2016**

Esboniodd IHJ ei fod yn awyddus i newid amserlen paratoi a gweithredu'r Amcanion Gweithredol o flwyddyn galendr i gyd-fynd gyda blwyddyn ariannol S4C, ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer amcanion 2016-17 ym mis Chwefror 2016.

Cymeradwywyd newid amserlen yr Amcanion Gweithredol i gyd-fynd gyda blwyddyn ariannol S4C o Ebrill 2016.

14. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

[Crynodeb: Ymhlith y rhaglenni a drafodwyd oedd Becws ail gyfres Codi Canu a'r Gwyll.]

15. **Asesiad Hanner Blwyddyn ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC**

Cyflwynwyd yr Asesiad Hanner Blwyddyn gryno ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC.

Cymeradwywyd yr asesiad i'w ddanfôn i'r Ymddiriedolaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynnwys.

16. **Prosiect Data**

Nodwyd y bydd Gwyn Williams yn cadeirio'r Prosiect Data. Esboniwyd fod 8,000 o unigolion wedi cofrestru ar y gronfa ddata newydd, gyda tharged o 40,000. Gobeithir y bydd modd lansio'r gronfa ddata'n swyddogol ym mis Mawrth.

MATERION ERAILL:

17. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth.**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth a chyfeiriwyd at yr Adroddiad Cwynion.

18. **Rhaglen Waith ac Agenda'r Diwrnod i Drafod**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod tan fis Gorffennaf 2016 er gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at agenda'r Diwrnod i Drafod fis Tachwedd a gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno unrhyw awgrymiadau neu ddymuniadau ar gyfer y drafodaeth.

19. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Ddydd Iau 12 Tachwedd, 2015 yng Nghaerdydd